



Presennol:	Huw Jones John Davies Hugh Hesketh Evans Guto Harri Elan Closs Stephens Siân Lewis	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Gwyn Williams Amanda Rees Gweirydd Davies Phil Williams Alun Thomas	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) (Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol) - Eitem 5 (Ysgrifennydd yr Awdurdod) - Eitem 1- 2.3 (Ysgrifennydd Cynorthwyol i'r Awdurdod) - Eitem 2.3 ymlaen

MATERION SEFYDLOG:

1. Croeso a Datganiadau Diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordbeau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Rhoddodd PW ddiweddariad ar y broses o benodi Prif Weithredwr newydd. Yn dilyn cymeradwyaeth yr Awdurdod aethpwyd ati i gysylltu â phedwar cwmni. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y sylw cadarnhaol, caredig i'r cyhoeddiad am ymadawiad IHJ.

Tynnodd sylw at gymeradwyaeth yr Aelodau drwy e-bost i'w argymhelliad i benodi HHE fel aelod o'r Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli.

Cwestiynau cyhoeddus parthed Adleoli

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am y prosiect Adleoli a sylw cyhoeddus diweddar. Cyfeiriodd y Cadeirydd at benderfyniad y Pwyllgor Craffu i ofyn iddo ysgrifennu at Is-ganghellor PCDDS i amlinellu sefyllfa S4C. Roedd prosesau S4C yn cael eu cwestiynu gan ein bod yn parchu ein hymrwymiad cyfrinachedd i BCDDS. Roedd amseru'r cyhoeddiad am y grant gan y Llywodraeth yn broblematic - yn ddelfrydol mae angen gwybod cyn yr ymddangosiad o flaen y Pwyllgor Dethol. Cafwyd trafodaeth am amseru a goblygiadau cyhoeddiad parthed grant i PCDDS ar gyfer datblygu'r Egin]

Holwyd am y sôn a gafwyd yn y wasg fod rhai cwmnïau oedd wedi datgan bwriad i symud i'r Egin bellach wedi tyngu nôl. Nid oedd IHJ yn ymwybodol o unrhyw gwmni oedd wedi tyngu allan.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am yr angen i sicrhau fod y rhesymau dros fynd i Gaerfyrddin yn cael eu cyfleu'n glir yn gyhoeddus. Roedd IHJ yn ffyddiog bod y negeseuon, mewn papurau, datganiadau a chyfarfodydd, wedi bod yn glir. Trafodwyd rhesymeg y cynlluniau Adleoli a Chydleoli a nodwyd y bydd y cyfuniad o adleoli, cydleoli ac ail-strwythuro yn sicrhau arbedion sylweddol i S4C ac mai dyma'r brif ffordd y byddai'r cynllun adleoli yn cyfrannu'n gadarnhaol at wasanaeth S4C ar y sgrin. Cytunwyd mai meincnod cost niwtral oedd wedi cael ei osod a'i grybwyll yn gyson yn y gorffennol, ond bod y rhagolygon bellach yn well na hynny. Nodwyd nad oedd yn opsiwn i aros yn

yr adeilad presennol yn Llanisien, oherwydd costau cynyddol fyddai'n codi yn y dyfodol.]

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am ddulliau craffu'r Awdurdod a nodwyd y . y gellid ystyried ymhellach sut i gyfleu i'r Awdurdod drylwyredd y prosesau archwilio.

Cytleoli

[Crynodeb: Rhoddwyd diweddariad am y trafodaethau diweddar rhwng S4C a'r BBC parthed y bwriad i gytleoli gwasanaethau technegol yn adeilad newydd y BBC yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Mewn perthynas â'r cynllun cytleoli, nododd ECS y byddai'n peidio â bod yn un o Ymddiriedolwyr y BBC ymhen deufis. Roedd yn awyddus i'r Awdurdod barhau i ystyried holl elfennau cadarnhaol y berthynas gyda'r BBC.]

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Cwblhawyd y trafodaethau gyda'r cwmnïau cynhyrchu ynghylch y cynllun rhag archebu a chafwyd ymateb positif gan bawb.

Rhoddodd flas i'r Awdurdod o'r materion fydd yn codi ym mis Chwefror a Mawrth. Cyfeiriodd at un newid yn y cymal ar Hyfforddiant.

Nododd fod AR am gyflwyno crynodeb o'r broses Adborth i Gynhyrchwyr i'r Awdurdod ym mis Chwefror ac yn yr un modd fe fydd GLI ac AR yn adrodd i'r Pwyllgor Cynnwys ar y polisi ffilm.

4. **Loteri Cymru - Diweddariad**

Cyflwynodd EM y diweddariad gan DB. Erbyn hyn mae'r prosiect yn gyhoeddus a chyfeiriwyd cwestiynau at Golley Slater gan Radio Wales ac X-Ray.

Mae gwaith technegol, gwaith elusennol a'r gwaith o sefydlu byrddau wedi bod yn digwydd a chyfeiriodd EM at benodiad Gareth Davies i fwrdd Wil Enterprises. Fe fydd is-fwrdd o SDML yn goruchwyllo'r prosiect ac o du'r Awdurdod mae HHE a CB ar y Bwrdd Masnachol.

Yn hytrach na Mawrth 1af fe fydd y lansiad tua chanol Mawrth. Cadarnhawyd slot am 8.00 o'r gloch ar nos Wener ond gan fod gem pêl-droed Cymru v Iwerddon ar Fawrth 24ain penderfynwyd gohirio'r dechrau tan yr wythnos wedyn.

Holwyd am gynllun cyfathrebu ac eglurwyd bod GW a Golley Slater yn gweithio ar y cynllun.

5. **Cyflwyniad Cyfryngau Cymdeithasol**

Cyflwynodd GD ei gyflwyniad ar ein defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol gan gyfeirio at dargedau'r gwaith sy'n cynnwys cynyddu dilyniant y prif gyfrifon er mwyn cyrraedd mwy o bobl. Soniodd am rai o'r prif ymgyrchoedd yn ystod 2016.

Un ohonynt oedd Eisteddfod yr Urdd pan glustnodwyd pump unigolyn i ofalu am blatfform yr un dros yr ŵyl (sef, Facebook, Twitter, Snapchat, Instagram a Periscope). Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y dilyniant o'r herwydd.

Gwelodd cystadleuaeth pêl-droed yr Ewro16 nifer anhygoel yn dewis "yn hoffi" ("Like"). Roedd y fideo "Diolch" gyda thîm Cymru wedi cael bron i 180,000 o wylwyr - ni chafwyd ffigyrau cystal erioed.

O edrych ar y platfformau penodol dros y flwyddyn gwelwyd y canlynol –

- **Twitter** - roedd y dilyniant yn dal i godi yn gyson
- **Instagram** - roedd wedi codi i 4500 gyda mwy o ffocws
- **Snapchat** - roedd y defnydd ohono yn fwy aml

- **Facebook** - roedd ymgysylltiadau tudalen S4C yn uwch (h.y. y "likes", "comments" a "shares")

Mae **Grabyo** yn caniatáu rhannu fideos oddi ar ffrwd byw S4C ac i amserau a phostio fideos cyffredinol. Elfen bwysig yw'r gallu i adrodd yn ôl a chynhyrchu ystadegau ar y defnydd o fideos. Mae gan y prif gwmnïau cynhyrchu'r modd i ddedol a gosod deunydd ac i ddysgu ac addasu eu dewisiadau wrth ddefnyddio adborth yr ystadegau.

Mae **Social Sprout** yn hwyluso ymateb i ddefnyddwyr, amseru a rhannu lluniau/negeseuon ac unwaith eto yn cynhyrchu adroddiadau ar y defnydd.

Mae **Snaplytics** yn caniatáu storio lluniau ac yn cynhyrchu adroddiadau.

Mae **Calendr** – Social Schedule yn ddefnyddiol i osgoi gwrthdaro, i sicrhau cysondeb ac i osgoi gorbostio o'r un deunydd.

Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau fod popeth sy'n ymddangos ar Facebook yn ddiddorol.

Pwysleisiodd GW y neges fod strategaeth y tu ôl i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a bellach mae'r ffigyrau ar gael i ddadansoddi ac addasu'r defnydd.

Trafodwyd y data sydd ar gael gyda'r systemau a ddangoswyd i fesur y defnydd ac anallu BARB i wneud yr un peth. Yn naturiol mae awydd i ystyried gwyllo'r darnau fideo fel gwylwyr. Wrth edrych ar y llwyfannau amrywiol y nod yw ceisio mesur cyrhaeddiad ond rhaid gochel rhag cymysgu data sydd ar sail wahanol. Eglurodd GW fod Facebook yn gallu rhoi darlun i ni o bwy sydd wedi gwyllo a phwy sydd yn gwneud beth ar y platfform.

[Crynodeb: Trafodwyd yr her o drosi gwyllo i gynnwys ffurf fer i wyllo'r gwasanaeth teledu ac Arlein]

Holwyd os oedd y darnau fideo yn edrych yn ôl neu ymlaen ac atebodd GD fod y rhan fwyaf yn edrych ymlaen. Holodd HJ am y sefyllfa gyda hawliau perfformio ac eglurodd GW fod y rhan fwyaf o'r defnydd ar gyfer hyrwyddo. Ymhelaethodd EM gan ddweud fod problemau gyda rhai cynlluniau a bod trafodaethau yn digwydd gyda'r Urdd a chwmni Sain ar hyn o bryd.

Llongyfarchwyd y tîm am yr hyrwyddo ar gyfer "Byw Celwydd" roedd wedi ennyn trafodaeth fawr am y gyfres.

Nodwyd fod y cyflwyniad yn gynhyrfus iawn ac yn amlygu'r dulliau amrywiol o gyrraedd ein cynulleidfa. Roedd yn hyderus ein bod ar ben y datblygiadau ac yn edrych ymlaen at ddiweddariadau amserol.

6. **Cofnodion Drafft Pwyllgorau'r Awdurdod**

Y Pwyllgor Craffu adleoli a Chydleoli (21/12/16)

[Crynodeb: Cyflwynodd JD gofnodion o'r pwyllgor ar 21 Rhagfyr a chafwyd trafodaeth ar y materion sy'n dilyn. Cyfeiriodd at y diweddariad a gafwyd ar y trafodaethau dros y TSA.]

7. **Y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth**

[Crynodeb: Cyflwynodd HHE gofnodion pwyllgor y 24 Tachwedd a chyfeiriodd hefyd at y drafodaeth a gafwyd ynghylch yr adroddiad Comisiynu Cynnwys gan PWC.

Ar fater o gywirdeb nododd EM ei bod yn bresennol yn y cyfarfod ac mai 55 o gwmnïau a gytundebwyd y llynedd.]

8. **Cofnodion Cyfarfod Rhif 403, Diweddariad y Pwyntiau Gweithredu a Materion yn codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 403

Pwynt 4.1.3 Cyfarfod Yr Ysgrifennydd Gwladol

Nodwyd y dylid newid y 2017-18 cyntaf yn y bedwaredd linell i 2016-17.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion gan ymgorffori'r addasiad uchod.

Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu a Materion yn codi

[Crynodeb: Cyflwynwyd y Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu a nodwyd diweddariad i nifer o bwyntiau]

9. **Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio**

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio, a chyfeiriwyd yn benodol at arlwy'r Nadolig a'r flwyddyn newydd, gan nodi nifer o uchafbwyntiau ar draws ystod y gwasanaeth

10. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr ac Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Crynodeb: Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a chyfeiriwyd at gwyn parthed defnydd o luniau archif o fewn rhaglen heb ganiatâd.] .

Cyflwynwyd papur yn nodi'r gofyn i S4C gydymffurfio a'r Safonau Iaith Newydd ynghyd â fersiwn newydd o'r Gweithdrefn Cwynion yn dangos y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y newidiadau.

11. **Ystyried Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2017 – 18**

Cyflwynwyd diweddariad i Raglen Waith yr Awdurdod 2017 - 18.

12. **Unrhyw Fater Arall**

Cyfeiriwyd at y ffyn cof USB a baratowyd i staff yn nodi Gweledigaeth, Diben a Gwerthoedd Craidd S4C. Roedd copïau ar gael ar gyfer yr Aelodau.

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at y newid i ddyddiad y Noson Gwylwyr yn Lerpwl. Y dyddiad newydd yw'r 15 Chwefror 2017.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau, 9 Chwefror 2017 yng Nghaerdydd